



Llais Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru
The Voice of Community and Town Councils in Wales

Nodyn Datblygu Ymarfer 5

Cyfarfodydd Aml-leoliad: Amserlen Camau

Dyddiad Cyhoeddi Mai 2024

Dyddiad Adolygu Mai 2025

Mae'r wybodaeth hon yn eiddo i Un Llais Cymru trwy hawlfraint. Fe'i cynhyrchwyd ar gyfer aelodau Un Llais Cymru yn unig. Dylech gysylltu ag Un Llais Cymru os ydych yn bwriadu dosbarthu'r wybodaeth hon y tu allan i'ch Cyngor.

Lyn Cadwallader BA(Hons), PGDipHsg, DBA, PGDipLOPS, Chartered MCIH
Prif Weithredwr/Chief Executive www.onevoicewales.org.uk

Nodyn Datblygu Ymarfer 5 Un Llais Cymru

Cyfarfodydd Aml-leoliad: Amserlen Camau

Canllaw syml i Gynghorau Cymuned a Thref

Cam	Pwrpas	Amserlen	Amserlen yn gryno
1. Rhagarweiniad			
<p>1.1 Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cyflwyno pecyn o ddiwygiadau i gryfhau ac ehangu'r grymoedd sydd ar gael i lywodraeth leol. Cyhoeddwyd Canllawiau ar gyfer y trefniadau hyn. Mae Pennod Dau yn cyfeirio at Gyfarfodydd Aml-leoliad.</p>	<p>Nid pwrpas y Nodyn hwn yw dyblygu'r Canllawiau. Mae'r Canllawiau'n eglur ac wedi'u gwreiddio mewn statud.</p> <p>Mae'n rhaid i Gynghorau roi ystyriaeth i'r canllawiau hyn wrth gyflawni eu swyddogaethau fel awdurdodau lleol.</p> <p>Yn hytrach, mae'r Nodyn hwn yn cynnig awgrymiadau ymarferol ar</p>	<p>Pasiwyd y Ddeddf ar 20 Ionawr 2021.</p> <p>Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau yn 2022 yn esbonio a manylu ar ddarpariaethau Deddf 2021.</p>	<p>Mae'n rhaid i gynghorau sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf a'r canllawiau statudol perthnasol.</p>

Cam	Pwrpas	Amserlen	Amserlen yn gryno
	sut i gael y gorau o'r trefniadau hyn.		
<p>1.2 Mae'r Nodyn Datblygu Arfer hwn yn cyfeirio'n bennaf at ymddygiad pan mae Aelodau'n mynychu'r cyfarfod o bell.</p> <p>Rhaid i Gyngorau ofalu fod unrhyw gyfarfod 'wyneb yn wyneb' hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer mynychu o bell.</p>	Rhaid i Gyngorau roi ystyriaeth i'r canllawiau hyn wrth gyflawni eu swyddogaethau fel awdurdodau lleol.	<p>Pasiwyd y Ddeddf ar 20 Ionawr 2021.</p> <p>Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau yn 2022 yn esbonio a manylu ar ddarpariaethau Deddf 2021. Yr enw arnynt yw canllawiau statudol.</p>	Mae'n rhaid i gyngorau sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf a'r canllawiau statudol perthnasol.
<p>1.3 Mae Un Llais Cymru hefyd wedi cyhoeddi canllawiau manwl ar gyfarfodydd aml-leoliad a hybrid. Mae'r canllawiau hyn ar gael ar ein gwefan.</p>	Mae canllawiau Un Llais Cymru yn cynnwys cyngor manwl, datrysiadau technegol, awgrymiadau ymarferol a blaengyfeiriadau at wybodaeth arall i helpu gwella profiad y sawl	Cymeradwyodd Un Llais Cymru y canllawiau newydd ym mis Mawrth 2024.	Astudio'r canllawiau cyn gynted ag y gallwch. Gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol.

Cam	Pwrpas	Amserlen	Amserlen yn gryno
	<p>sy'n cymryd rhan a dilyn darpariaethau statudol.</p> <p>Nid yw'r Nodyn hwn yw dyblygu'r Canllawiau, yn hytrach mae'n awgrymu ambell syniad ymarferol i helpu Cyngorau i reoli cyfarfodydd.</p>		
1.4 Mae Un Llais Cymru wedi cyhoeddi Model Reolau Sefydlog sy'n adlewyrchu'r trefniadau hyn. Siaradwch â'ch Swyddog Datblygu os oes angen copi arnoch.	Bydd y Model Reolau Sefydlog yn helpu sicrhau bod trefniadau llywodraethiant y Cyngor yn adlewyrchu gofynion statudol.	Cyhoeddwyd y Model Reolau Sefydlog ym mis Mai 2023. Dylai Cyngorau adolygu eu Rheolau Sefydlog yn flynyddol o leiaf.	Gellir adolygu'r Rheolau Sefydlog yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor neu unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn.

Mae gweddill y Nodyn hwn yn rhoi sylw i rai o'r pwyntiau GWNEUD a PHEIDIO GWNEUD wrth fynychu cyfarfodydd o bell.

Mae peth o'r wybodaeth yn ymddangos hefyd yn y dogfennau a restrir uchod.

Cam	Pwrpas	Amserlen	Amserlen yn gwyno
2. Cyn y cyfarfod			
<p>Gofalwch fod eich offer TG yn gweithio.</p> <p>Dylai'r Aelod neu'r Swyddog sy'n cefnogi'r cyfarfod ofalu eu bod yn cyrraedd neu'n ymuno'n gynnar ar gyfer y cyfarfod er mwyn rhoi amser i brofi cysylltiadau Rhyngrwyd, sain, a fideo.</p>	<p>Gallu cymryd rhan yn y cyfarfod heb unrhyw broblemau.</p>	<p>Gwneud hynny mewn da bryd.</p>	<p>O leiaf 15 munud cyn y cyfarfod.</p>

Gofalwch fod y ddolen i'r cyfarfod yn gweithio'n iawn.	Gallu cymryd rhan yn y cyfarfod heb unrhyw broblemau.	Gwneud hynny mewn da bryd.	O leiaf 15 munud cyn y cyfarfod.
Ymunwch â'r cyfarfod mewn da bryd rhag ofn ichi ddod ar draws unrhyw broblemau.	Gallu cymryd rhan yn y cyfarfod heb unrhyw broblemau.	Gwneud hynny mewn da bryd.	10-15 munud cyn y cyfarfod.
Dyrannwch rolau ymlaen llaw. Pwy fydd yn danfon y ddolen at westeion a wahoddwyd, yn rheoli'r sgriniau, cadw'r nodiadau, cadeirio'r cyfarfod, cadw golwg ar aelodau o bell sy'n dymuno cymryd rhan. Pwy sy'n trefnu'r cyfarfod ar gyfer unrhyw un sy'n bresennol wyneb yn wyneb. Ni all y Clerc wneud y cyfan!	Helpu cadw trefn ac effeithlonrwydd yn y cyfarfod.	Gwneud hynny mewn da bryd.	Gwneud cynlluniau hirdymor ar gyfer hyn.

3. Yn y cyfarfod			
Cam	Pwrpas	Amserlen	Amserlen yn gryno
<p>Os oes rhaid cofnodi eich presenoldeb, gwnewch yn siŵr y gellir eich adnabod yn rhwydd a chywir. Byddwch yn barod i gyflwyno'ch hun.</p> <p>Peidiwch â mewngofnodi fel "Clerc," "Dave," neu "Koppite96."</p>	<p>Helpu cofnodi presenoldeb yn gywir a chadw pethau'n broffesiynol.</p>	<p>Dylid gwneud y cynlluniau hyn cyn y cyfarfod.</p>	<p>Gwneud hyn yn barod ar gyfer y cyfarfod, os nad cyn hynny.</p>
<p>Ydych chi'n gwybod sut i ddefnyddio'r cyfleuster Codi Llaw? Defnyddiwch y nodwedd pan rydych eisiau siarad. Tynnwch y llaw i lawr pan nad ydych eisiau siarad mwyach.</p>	<p>Helpu cadw trefn ar y cyfarfod a helpu sicrhau y caiff eich llais ei glywed.</p>	<p>Dylid gwirio hyn cyn unrhyw gyfarfodydd. Efallai y bydd pecynnau meddalwedd gwahanol fel Zoom, Teams, Googlemeet yn defnyddio eiconau gwahanol ac ati.</p>	<p>Gwneud hyn yn barod ar gyfer y cyfarfod, os nad cyn hynny.</p>

Ydych chi'n gwybod sut i droi'r cyfleuster fideo ymlaen fel y gall pobl eich gweld ar y sgrin?			
Dylech ddeall sut i dawelu a dad-dawelu eich hun i atal sŵn cefndir rhag tarfu arnoch	Helpu cadw trefn ac effeithlonrwydd yn y cyfarfod.	Dylid gwirio hyn cyn unrhyw gyfarfodydd. Efallai y bydd pecynnau meddalwedd gwahanol fel Zoom, Teams, Googlemeet yn defnyddio eiconau gwahanol ac ati.	Gwneud hyn yn barod ar gyfer y cyfarfod, os nad cyn hynny.
Byddwch yn ofalus wrth ddefnyddio cyfleuster Chat. Penderfynwch a yw'r cyfarfod yn mynd i ddefnyddio'r nodwedd hon ac, os felly, pwy sy'n cadw llygad ar unrhyw beth sy'n cael ei bostio ar fwydlen Chat.	Helpu cadw trefn ar y cyfarfod a helpu sicrhau y caiff sylwadau eu cofnodi.	Dylid gwirio hyn cyn unrhyw gyfarfodydd. Efallai y bydd pecynnau meddalwedd gwahanol fel Zoom, Teams, Googlemeet yn defnyddio eiconau gwahanol ac ati.	Gwneud hyn yn barod ar gyfer y cyfarfod, os nad cyn hynny.
Penderfynwch ar brosesau ar gyfer rhannu unrhyw ddogfennau ar-lein gyda mynychwyr.	Helpu cadw trefn ac effeithlonrwydd yn y cyfarfod.	Penderfynwch ar hyn ymhell ymlaen llaw.	Gwneud cynlluniau hirdymor ar gyfer hyn.

5. Wedi'r cyfarfod			
Cam	Pwrpas	Amserlen	Amserlen yn gryno
5.1 Dylid cofnodi unrhyw faterion penodol a wynebwyd a sut gawsant eu datrys.	Yna gellir troi at y cofnod hwn mewn cyfarfodydd eraill os yw problemau tebyg yn codi.	Cyn gynted ag y bo modd ar ôl y cyfarfod.	Gwneud hyn wrth ysgrifennu'r cofnodion?
5.2 Os yw'r Cadeirydd yn mynychu cyfarfod o bell, dylai'r Cadeirydd lofnodi'r cofnodion cyn yr un cyfarfod neu'r cyfarfod nesaf.	Sicrhau y bodlonir y gofyniad cyfreithiol fod y Cadeirydd, os yn bresennol, yn llofnodi'r cofnodion i gadarnhau y cawsant eu cymeradwyo. "Deddf Llywodraeth Leol 1972, Rhan IV, Atodlen 12 41(1) – Bydd cofnodion o drafodion cyfarfod awdurdod lleol yn cael eu paratoi a'u rhoi mewn llyfr i'r perwyl hwnnw ac fe gânt eu llofnodi yn yr un	Yn yr un cyfarfod neu'r cyfarfod nesaf.	Fel y nodwyd.

	cyfarfod neu yng nghyfarfod nesaf yr awdurdod gan y person sy'n llywyddu ynddo, a derbynnir unrhyw gofnod yr honnir iddo gael ei lofnodi felly yn dystiolaeth heb unrhyw brawf ychwanegol."		
--	---	--	--

Rhai awgrymiadau allweddol:

- Mae'r [canllawiau statudol](#) yn gynhwysfawr. Nid yw Un Llais Cymru wedi ceisio dyblygu'r cyngor hwn. Mae'r nodyn yn ganllaw cyflym ar arfer da, gan gynnwys awgrymiadau defnyddiol i ychwanegu at y canllawiau statudol.
- Mae llawer o raglenni meddalwedd a llwyfannau y gall Cynghorau eu defnyddio. Nid yw Un Llais Cymru yn argymhell un cynnyrch yn hytrach nac un arall. Pa system bynnag a ddefnyddiwch, gofalwch fod y Cyngor yn cydymffurfio â chanllawiau statudol a'i fod yn trefnu cyfarfod llwyddiannus.
- Er bod Deddf 2021 yn caniatáu cyfarfodydd wyneb yn wyneb mewn un lleoliad, mae'n rhaid galluogi cyfranogwyr (h.y. aelodau'r cyngor, aelodau'r cyhoedd a'r wasg) i ymuno â chyfarfodydd o leoliad arall. Mae'n rhaid i gynghorau gyhoeddi'r trefniadau hyn, trwy reolau sefydlog er enghraifft.
- Mae llawer o Gynghorau wedi addasu eu hagendau ac ati er mwyn gallu cynnal cyfarfodydd hybrid. Dyma enghreifftiau o [Gyngor Tref Caerfyrddin](#) a [Chyngor Cymuned Pontypŵl](#).
- Gall fod yn ddefnyddiol ystyried dyddiad cau er mwyn i bobl roi gwybod i'r Cyngor eu bod yn bwriadu cymryd rhan o bell. Fodd bynnag, ni fyddai hynny'n rhwystro pobl rhag mynychu o leoliad arall heb roi gwybod ymlaen llaw.
- Mae gan bawb yr hawl i fynychu cyfarfod Cyngor o leoliad arall os dymunant. Ni ellir gwrthod hynny. Mae [Cyngor Cymuned Pennard](#) wedi gweld fod eu cyfarfodydd ar-lein wedi denu mwy o aelodau'r cyhoedd nac a wnaeth y cyfarfod wyneb yn wyneb o gwmpas y bwrdd erioed!
- Mae'r trefniadau hyn yn creu casgliad newydd o sefyllfaoedd y mae'n rhaid i Gynghorau eu hystyried. O bryd i'w gilydd, mae problemau TG yn golygu fod Aelodau'n methu cymryd rhan yn y cyfarfod trwy eu hoffer TG. Ar yr amod y cafodd y ddolen i'r cyfarfod ei chreu a'i dosbarthu'n iawn, mae'n annhebyg y byddai hynny'n effeithio ar ddilysrwydd y cyfarfod, ar yr amod fod cworwm yn y cyfarfod.

- Os yw Aelod yn colli cysylltiad oherwydd problem gyda'u cysylltiad, mae hynny'n debyg i'w car yn torri i lawr ar y ffordd i'r cyfarfod ond bydd y cyfarfod yn ddilys o hyd ar yr amod fod cworwm.
- Os yw prif ystafell y cyfarfod yn colli cysylltiad, gallai hynny fod yn wahanol ac efallai y bydd rhaid atal neu ohirio'r cyfarfod.
- Yn y cyfarfod ei hun, dylech siarad trwy'r Gadair. Peidiwch "gweiddi ar draws yr ystafell." Arhoswch i gael eich galw. Siaradwch yn glir. Gwnewch yn siŵr y gallwch glywed a chael eich clywed.
- Gwnewch hi'n hawdd i bobl allu eich adnabod.
- Canolbwyntiwch. Peidiwch â gwneud mwy nac un peth yn ystod y cyfarfod. Ceisiwch osgoi sŵn cefndir neu bethau eraill yn tarfu.
- Ni ddylai fod gennych gi yn eich côl.
- Dylech ymddwyn yn urddasol a gydag etiquette.
- ac yn olaf, peidiwch anghofio: Mae hwn yn gyfarfod go iawn. Nid sgwrs fideo gyda chyfeillion neu deulu mohono. Os yw'n gyfarfod Cyngor, bydd eich Cod Ymddygiad, Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol yn berthnasol o hyd. Gwiriwch beth mae eich Cynllun Iaith Gymraeg yn ei ddweud am ganiatáu i aelodau ddefnyddio eu dewis iaith. Gofalwch fod eich Rheolau Sefydlog yn rhoi sylw i weithdrefnau mewn cyfarfodydd o bell neu hybrid. Dylech ddilyn y rheolau hynny.

Dylech ddilyn y protocolau priodol bob tro. Os yw'n gyfarfod Un Llais Cymru neu gorff allanol arall, *bydd llawer o'r rheolau a'r egwyddorion hyn yn berthnasol o hyd.* Cynhelir llawer o gyfarfodydd Un Llais Cymru o bell erbyn hyn, megis cyfarfodydd Pwyllgorau Ardal a'r Pwyllgor Cynghorau Lleol Mwy.